OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 254 (Cy.29)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*4 Chwefror 2004*
Yn dod i rym - -	*9 Chwefror 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2(2) a (4), a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 9 Chwefror 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i geisiadau am grant a wnaed ar neu ar ôl 9 Chwefror 2004 i awdurdodau tai lleol yng Nghymru(**2**).

Diwygiadau

2. Mae Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) 1996(**3**) yn cael eu diwygio yn unol â'r rheoliadau canlynol.

Rheoliad 2

3. Yn lle rheoliad 2 (ffurflenni cais am grant) rhowch —

> "**2.**—(1) The form set out in the Schedule shall be the prescribed form of application for a grant (other than a landlord's application) for the purposes of section 2(4) of the Act.

(**1**) 1996 p.53. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). *Gweler* yr eitem yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

(**2**) I gael y diffiniad o "grant", *gweler* adran 1 o'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd gan baragraff 2 o Atodlen 3 i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Lloegr a Chymru) 2002 (O.S. 2002/1860) ("Gorchymyn 2002").

(**3**) O.S. 1996/2891, a ddiwygiwyd gan O.S.1996/3119, O.S. 1997/978, O.S. 1998/809, O.S. 1999/1607, O.S. 1999/3470 (Cy.56), O.S. 2000/1735 (Cy.119), O.S. 2001/2071(Cy.143), O.S. 2001/4006 (Cy.332) ac O.S. 2002/2799 (Cy.267).

(2) In paragraph (1), "landlord's application" means an owner's application in respect of works to a dwelling which is or is intended to be let, or to the common parts of a building in which a flat is or is intended to be let.".

Yr Atodlen

4. Mae'r ffurflen a welir yn yr Atodlen yn cael ei diwygio yn y modd a welir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

4 Chwefror 2004

(**4**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

Rheoliad 4

DIWYGIO'R FFURFLEN RAGNODEDIG

1. Yn lle pennawd y ffurflen ac yn lle'r cyfan o'r testun sy'n dod o flaen Rhan 1 rhowch —
"APPLICATION FOR GRANT FOR DISABLED PERSONS' FACILITIES

(Insert name and address of council)

In these instructions and the accompanying form and notes, "the Act" means the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996. The Act has been substantially amended by Schedule 3 to the Regulatory Reform (Housing Assistance) (England and Wales) Order 2002 (S.I. 2002/1860). Unless otherwise stated, all references to sections are to sections of the Act.

This is the form to use if you are making an application under Part 1 of the Act for grant towards the cost of works required for the provision of facilities for disabled persons in a house, a flat, a qualifying houseboat or a qualifying park home, or in the common parts of a building containing one or more flats. (**Notes 5, 5A** and **5B** give further information about the meaning of flat, qualifying houseboat and qualifying park home).

Do not use this form if you are an owner and the application is in respect of works to a house or flat which is or is intended to be let or to the common parts of a building in which a flat is or is intended to be let.

Please tick boxes where appropriate.

When you have completed this form, please send it to the council whose name and address is given above.

If you are uncertain how to answer any of the questions, please contact (*insert name, address and telephone number of contact in the council*)

2. Yn y testun mewn italig o flaen cwestiwn 1.1, hepgorwch y geiriau o "Throughout" i "in the Act".

3. Yng nghwestiynau 1.2A, 1.3, 1.5 ac 1.9 yn lle "property" rhowch "premises".

4. Yn lle cwestiwn 1.7 a'r pennawd o'i flaen rhowch —

The premises where the works are to be carried out

1.7 Please give the address of the premises at which the works are to be carried out:

.....

.....

.....

.....

Are these premises:

a house	
a flat	Note **5**
a qualifying houseboat	Note **5A**
a qualifying park home	Note **5B**
a building containing one or more flats	Note **5C**

If you cannot tick one of the above, in answer to this question, you are not entitled to be paid grant

5. Hepgorwch gwestiynnau 1.8 ac 1.18.

6. Yng nghwestiwn 1.10 and 1.11 yn lle "this property" rhowch "these premises."

7. Yn lle Rhan 2 (yn cynnwys Rhannau 2 i 2C) rhowch —

"PART 2

INFORMATION SPECIFIC TO THE APPLICATION YOU ARE MAKING

2.1. Which kind of application are you making?

Disabled adaptations to a house or flat

- an owner's application (other than a landlord's application)	**Notes 16 and 17**
- a tenant's application	**Note 18**

Disabled adaptations to the common parts of a building containing one or more flats

- an owner's application (other than a landlord's application)	**Note 16**
- a tenant's application	**Note 18**

Disabled adaptations to a qualifying houseboat or qualifying park home